

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 22 Medi 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, B. Jones, D. Williams, Mervyn Jones,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: E. Parry, A. Williams, David James, G. C. Jones,

2. Datganiadau Diddordeb.

2.1 Mi ddatganwyd diddordeb gan B. Jones yn eitem 16.3

2.2 Meirion Jones yn nodi ei fod o a J. Roberts am gynnal cyfarfod ar y cyd gydag aelodau Cyngor Penmynydd i drafod materion fel Cod Ymddygiad ac yn y blaen, rhyw dro cyn diwedd y flwyddyn.

3. Cyfrifon mis Medi 2015

3.1 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

4. Materion y Cyngor Sir

4.1 Meirion Jones yn cadarnhau fod dim llawer o ddiweddariad i'r statws sengl. Nodwyd fod rhai agweddau o'r broses efallai am gael ei edrych arno eto.

4.2 Meirion Jones wedi trafod y broses o yrru manylion ceisiadau cynllunio ymlaen i Gynghorau Cymuned gyda swyddog o'r adran gynllunio. Nodwyd fod y drefn am newid, ble fydd y manylion yn cael eu gyrru yn electroneg, ond ddim am ryw 6 (chwech) mis arall.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Gorffennaf 2015

5.1 J. Roberts yn cynnig, Dennis Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi

6.1 Ysgol Feithrin - A. Mummery yn nodi fod y drefn newydd gyda'r ysgol gynradd wedi cychwyn, a bod y cyfarfod cyntaf gyda llywodraethwyr yr ysgol i ddod i gael adrodd yn ôl sut mae'n gweithio.

6.2 Twr Marcwis - Stad Plas Newydd yn fodlon i waith cynnal a chadw cael ei gynnal os oes angen, ond mae angen gadael iddynt wybod ymlaen llaw pa waith sydd ei hangen. Asiant y stad am roi diweddariad i'r Cyngor Bro unwaith y bydd yr arolygon llawn wedi ymgymryd o'r Twr Marcwis.

6.3 Plac ar dy Kyffin Williams - Asiant y Stad Plas Newydd wedi cadarnhau fod dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, yn amodol ar gytuno ei leoliad a'i ddyluniad. Clerc i ysgrifennu at Pat West CSYM i weld os yw hi'n bwriadu gosod un.

6.4 Grid Cenedlaethol - H. Huws yn nodi fod llythyrau deiseb cychwyn cael eu dosbarthu. Nodwyd fod yr ymgynghoriad nesaf ar y peilonau ar fin cychwyn gan y Grid Cenedlaethol.

6.5 Bwrdd Iechyd - A. Mummery wedi trafod gyda Linda West a tydi hi ddim yn medru cael ymateb gan ei uwchswyddogion. A. Mummery am ddilyn i fyny.

6.6 Llwybr beicio - H. Huws wedi gyrru'r manylion ymlaen i'r clerc. Y clerc i'w yrru ymlaen i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

6.7 Cysgodfa Bws a Swyddfa'r Cyngor Bro - Nodwyd fod y gwaith paentio wedi gwblhau. Nodwyd fod Cysgodfa Plas Garnedd angen sylw.

6.8 Maes Amlbwrpas - Clerc i yrru manylion ymlaen i Bapur Menai erbyn Mis Tachwedd.

6.9 Mainc Newydd - A. Jones yn nodi ei fod wedi derbyn y fainc newydd, ac yn disgwyl i Andre Le Cras ddod i'w gosod

6.10 Grant Ymddiriedolaeth Ynys Môn - Nodwyd fod yr ymgyrch Neuadd Goffa wedi bod yn aflwyddiannus gyda chais am y grant. Cytunwyd bod angen ail-edrych ar sut fydd y costau byr dymor yn cael eu cyfarfod cyn gwneud cais llawn terfynol.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd Goffa 08 Medi 2015

7.1 A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn codi o'r cofnodion

8.1 A. Jones yn cadarnhau ei fod wedi derbyn prisiau ar gyfer gwresogyddion newydd i'r Neuadd Snwcer o gwmpas £200 am 4 (bedwar) o rhai newydd. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio ein bod yn gweithredu i brynu rhai newydd a gosod amseredd ar y cyflenwad trydan yno.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 08 Medi 2015

9.1 A. Mummery yn cynnig, M. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

10. Materion yn codi o'r cofnodion

10.1 Nodwyd fod angen ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor wedi ymddiswyddiad Alice Thomas.

11. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 15 Medi 2015

11.1 A. Jones yn cynnig, B. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

12. Materion yn codi o'r cofnodion

12.1 Baneri - Clerc i ysgrifennu at Adran Priffyrdd CSYM am eglurhad swyddogol pam ni allwn roi baneri i fyny ar bolion goleuadau stryd gan fod pentrefi eraill i weld wedi gwneud.

12.2 Pris wedi'i dderbyn am osod soced trydan yn y cloc. Clerc i ofyn i Now Parry weithredu.

12.3 A. Jones a G. Parry am weithredu ar drefniadau Nadolig.

13. To cegin y Neuadd Goffa

13.1 Nodwyd fod to'r gegin i weld wedi cael difrod dwr gan law yn dod i mewn trwy'r to. J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio gofyn i Andre Le Cras fynd yno i gael golwg a rhoi awgrymiadau a hefyd prisiau.

14 Projector i'r Cyngor Bro

14.1 A. Mummery yn cynnig, G. Parry yn eilio i gytuno i ddal yn ôl tan y flwyddyn ariannol newydd cyn prynu un, gan ni fydd y trefniant newydd o dderbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn dod i mewn tan hynny.

15. Mandad cyfrifon y Cyngor Bro a Neuadd Goffa

15.1 Cytunwyd i roi A. Jones, A. Mummery, B. Jones a D. Owen fel llofnodwyr i'r cyfrifon.

16. Ceisiadau Cynllunio

16.1 31C428 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr sied/garej pren ynghyd a chodi adeilad 'pod' n Pen Clogwyn, Lon Pant, Llanfairpwll - Dim sylw

16.2 31C423A/LB Cais am ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer dymchwel yr estyniad yn y cefn ynghyd ag addasu ac ehangu yn 2 Tyddyn Pwyth, Llanfairpwll - Dim sylw

16.3 Mi wnaeth B. Jones adael yr ystafell cyn trafod yr eitem. 31C429 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Awel Môn, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll - Dim sylw. Dychwelodd B. Jones i'r ystafell wedi trafod yr eitem.

16.4 31C78H/DEL Cais o dan adran 73 i ddiwygio amodau (14) a (08) i alluogi newid y cynlluniau a gafodd ei gymeradwyo yn flaenorol ynghyd a dileu amodau (15, (16) ac (17) yn ymwneud a Chod Cartrefi Cynaliadwy o ganiatâd cynllunio rhif 31C78F/VAR ar dir ger Creigiar Land, Llanfairpwll - Dim sylw

16.5 31C238A Cais llawn i ddefnyddio'r annedd ar gyfer busnes gwarchod plant yn 18 Stad Tŷ Croes - Nodwyd fod angen rhoi sylwad am y sefyllfa parcio yn fore gyda rhieni yn fyrbwyll yn y bore. Dim sylw arall.

17. Gohebiaeth

17.1 Kwikit - gwasanaethau i'r sector cyhoeddus - Derbyn y wybodaeth

17.2 Grid Cenedlaethol - Newyddion i'r gymuned - Derbyn y wybodaeth

17.3 Clerks & Council's Direct - cylchgrawn - Derbyn y wybodaeth

17.4 Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth

17.5 Un Llais Cymru - Cynigion i gyfarfod Blyneddol Un Llais Cymru a chofnodion cyfarfod Cyngorau Cymuned Ynys Môn. Hana Huws yn derbyn y copi.

17.6 Llythyr gan Stella Testa o Ffrainc - Hana Huws yn cynnig cael llain llestri o Pringles hefo enw llawn y pentref a hefyd pamffledi a cherdyn post.

17.7 Menter Môn - Grant adfywio pentrefol cynllun datblygu gwledig drwy Ynys Môn - Manylion wedi'i gyrru yn flaenorol i Fenter Môn

17.8 UHY Hacker Young - Cwblhau Awdit - Derbyn y wybodaeth a'r rhybudd i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 27 Hydref 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad